Centre of expertise on child sexual abuse

# Cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd: Golwg gyffredinol ar wybodaeth ac ymarfer

## Crynodeb gweithredol

Ionawr 2021

Peter Yates a
Stuart Allardyce



# Crynodeb gweithredol

Testun y papur hwn yw cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd sy'n blant; nid yw'n ystyried brawd neu chwaer sy'n oedolyn yn cam-drin plentyn, nac unrhyw ryngweithio rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd pan fyddant yn oedolion.

Credir mai cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd sy'n blant yw'r math mwyaf cyffredin o gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu, efallai hyd at dair gwaith yn fwy cyffredin na rhiant yn cam-drin plentyn yn rhywiol.

Mewn achosion o gam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd, mae'r unigolyn sydd wedi niweidio yn ogystal â'r unigolyn sydd wedi cael ei niweidio yn blentyn. Mae hyn yn cyflwyno heriau penodol sy'n gallu arwain at ymatebion dryslyd gan weithwyr proffesiynol.

Mae angen i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fod yn barod i weithio gyda phobl y mae cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd wedi effeithio arnynt, gan gynnwys plant ac oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth. Mae hyn yn golygu deall natur a chanlyniadau'r cam-drin, er mwyn rhoi ymatebion digonol i ddatgelu a chanfod. Mae hefyd yn cynnwys, lle bo hynny'n briodol, gallu asesu a rheoli'n effeithiol wahanol fathau o sefyllfaoedd sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd, a rhoi cefnogaeth i bob aelod o'r teulu yr effeithir arnynt er mwyn eu helpu i symud ymlaen o niwed a thrallod.

Nod y papur hwn yw bod yn adnodd hygyrch i helpu gweithwyr proffesiynol i ystyried y materion a'r heriau sy'n codi yn sgil cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd. Mae'n rhoi trosolwg o'r ymchwil a'r wybodaeth ymarfer gyfredol ac yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd
- graddfa a natur y cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd
- effaith y cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd
- ymatebion proffesiynol i gam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd
- casgliadau a myfyrdodau.

Fe'i ysgrifennir yn bennaf ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â diogelu plant, ond gall fod o ddiddordeb i grŵp ehangach sy'n cael eu hunain yn gweithio gyda theuluoedd y mae cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd yn effeithio arnynt (ee athrawon, ymarferwyr iechyd meddwl, gofalwyr maeth, gweithwyr gofal preswyl). Gan mai anaml iawn y datgelir cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd yn ystod plentyndod, gall y papur hwn fod o ddefnydd hefyd i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag oedolion sydd wedi goroesi cam-drin rhywiol.

> Gall cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd fod yr un mor niweidiol â cham-drin rhywiol gan riant, gydag effeithiau tymor byr a thymor hir

## Deall y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd

Mae'r berthynas rhwng brodyr a chwiorydd yn gymhleth, ac mae eu dylanwad ar ddatblygiad a gweithrediad seicogymdeithasol yn debygol o fod yn sylweddol ac yn amwys. Felly, mae effaith perthynas gamdriniol rhwng brodyr a chwiorydd hefyd yn debygol o fod yn sylweddol ac yn gymhleth.

Mae'r berthynas rhwng brodyr a chwiorydd yn debygol o olygu deinameg pŵer cymhleth sy'n seiliedig ar amrywiaeth o wahaniaethau o ran rhyw a diwylliant. Fel arfer, mae gan blant hŷn amrywiaeth ehangach o dactegau i'w defnyddio, ac maent yn fwy tebygol o gael awdurdod dros frodyr a chwiorydd iau a chael eu credu gan rieni.

Yng nghyd-destun cam-drin, mae natur y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd a'r amgylchedd y maent yn datblygu ynddo yn ei gwneud yn bosibl i ymddygiad fod yn un sy'n digwydd yn aml ac nid yw'n cael ei atal. Gall ei gwneud yn anodd i frodyr a chwiorydd iau ddweud wrth unrhyw un am y gamdriniaeth neu deimlo'n hyderus y byddant yn cael eu credu.

Rhaid i'r ddealltwriaeth o sut mae unrhyw deulu'n gweithredu ymestyn y tu hwnt i ddealltwriaeth o sut mae'r rhieni/gofalwyr yn gofalu am blant. Mae angen deall sut mae unigolion o fewn y teulu yn rhyngweithio; eu rolau a'u statws mewn gwahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau; y berthynas rhwng y plant yn y teulu; dealltwriaeth y plant o'r perthnasoedd hynny; ac anghenion unigol pob plentyn yn y teulu.

## Gwahanol fathau o ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd

'Mae 'ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd' yn derm cyffredinol a all gyfeirio at unrhyw fath o ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd. Mae gan gam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd y potensial i fod yr un mor niweidiol â cham-drin rhywiol gan riant; gall arwain at ganlyniadau tymor byr a thymor hir i iechyd corfforol a meddyliol plant, ac arwain at anawsterau mewn perthynas drwy gydol eu hoes. Fodd bynnag, gall rhywfaint o ryngweithio rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd fod yn archwiliadol ac yn gydsyniol yn hytrach na chamdriniol. Mae asesu natur ac ansawdd y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd yn bwysig wrth asesu natur ymddygiad rhywiol y brodyr a chwiorydd.

O ystyried yr holl gymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd, mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn benodol am yr iaith y maent yn ei defnyddio i ddisgrifio'r ymddygiad. Gellir eu rhannu'n fras yn dri math:

- rhyngweithiadau rhywiol normadol rhwng brodyr a chwiorydd – ymddygiad rhwng brodyr a chwiorydd ifanc sy'n bodoli o fewn y normau datblygiadol disgwyliedig
- ymddygiad rhywiol amhriodol neu broblemus sy'n cynnwys brodyr a chwiorydd – ymddygiad rhwng brodyr a chwiorydd sydd y tu allan i'r normau datblygiadol ac a allai achosi niwed datblygiadol i'r plant dan sylw
- camdriniaeth rywiol rhwng brodyr a chwiorydd – ymddygiad sy'n achosi niwed rhywiol, corfforol ac emosiynol, gan gynnwys ymddygiad rhywiol camdriniol sy'n cynnwys trais.

Dylid osgoi iaith amhenodol, gan fod gan oedolion gredoau a gwerthoedd amrywiol ynghylch beth yw ymddygiad rhywiol priodol ar wahanol adegau yn ystod plentyndod, ac mae asesiad proffesiynol yn gofyn am ddisgrifiad a dadansoddiad clir o natur yr ymddygiad ochr yn ochr â'i gyd-destun. Mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn cofnodi manylion yr ymddygiad, yn hytrach na dibynnu ar labeli yn unig mewn nodiadau achos.

Mae rhyngweithio rhywiol normadol rhwng brodyr a chwiorydd ifanc yn gymharol gyffredin, yn ddiniwed, ac yn cyflawni swyddogaeth ddatblygiadol. Mae ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd sydd y tu allan i normau datblygiadol yn debygol o fod yn niweidiol i'r plant dan sylw. Mae'n hanfodol peidio â diystyru cam-drin rhwng brodyr a chwiorydd fel chwilfrydedd diniwed. Yn yr un modd, mae'n bwysig peidio â phardduo ymddygiad rhywiol normal datblygiadol rhwng brodyr a chwiorydd sy'n blant fel ymddygiad sy'n ecsbloetio ac yn niweidiol.

## Nodweddion ac effaith cam-drin rhwng brodyr a chwiorydd

Mae'r patrwm mwyaf cyffredin o gam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd yn cynnwys brawd hŷn yn cam-drin chwaer iau, ac mae'r rhan fwyaf o'r hyn a wyddom o waith ymchwil yn ymwneud â'r paru hwn.

Gall pob cyfuniad o frodyr a chwiorydd fod yn gysylltiedig â cham-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd. Fodd bynnag, mae lleiafrif sylweddol yn cynnwys nifer o blant yn cael eu niweidio o fewn y teulu, neu blant sy'n niweidio yn ogystal â chael eu niweidio drwy gam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd.

Gall cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd gynnwys amrywiaeth eang o ymddygiadau dros gyfnod hir, gan gynnwys cyffwrdd rhywiol, gweithredoedd rhywiol treiddiol a mathau digyswllt o gam-drin rhywiol fel llygadu. Mae'n llai tebygol o gael ei ddatgelu na mathau eraill o gam-drin rhywiol, ac efallai na fydd ei effaith yn amlwg hyd nes y bydd yr unigolyn yn oedolyn. Fel gyda mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, fodd bynnag, nid yw cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd yn effeithio ar bawb sy'n gysylltiedig yn yr un modd. Gall teuluoedd nad ydynt yn cydnabod y cam-drin neu sy'n cam-leoli cyfrifoldeb waethygu effaith y cam-drin yn sylweddol.

Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn ofalus i beidio â gwneud rhagdybiaethau, ond i asesu effaith debygol cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd drwy ystyried ei natur a'i hyd, cyd-destun y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd a'r teulu lle mae wedi digwydd, ei hystyr i'r plant dan sylw, ymatebion aelodau o'r teulu, a ffactorau amddiffynnol a bregusrwydd eraill.

Gall plant sydd wedi cam-drin brawd neu chwaer yn rhywiol yn aml fod wedi profi trawma ac wedi cael eu cam-drin eu hunain, a rhaid iddynt gael cefnogaeth yn unol â hynny. Mae ymchwil wedi dangos yn bendant bod plant a phobl ifanc yn cynrychioli poblogaeth sy'n wahanol i oedolion sy'n cyflawni troseddau rhywiol, a bod y llwybrau i mewn ac allan o'r ymddygiad hwn yn wahanol iawn i blant ac oedolion. Nid yw'r plant hyn yn 'droseddwyr rhyw ifanc'.

Nid yw hyn yn golygu mai dim ond yng nghyd-destun anawsterau teuluol ehangach y mae cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd yn digwydd – ond mae'n golygu bod angen ymchwilio i'r berthynas rhwng brodyr a chwiorydd a deinameg ehangach y teulu, er mwyn deall y llwybr at gam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd a dangos cyfleoedd i deilwra ymyriadau priodol.

Rhaid deall cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd fel problem i'r teulu cyfan, ac nid problem plentyn unigol yn unig. Mae angen i'r teulu cyfan fod yn rhan o unrhyw gynllun ymyrryd, a rhaid harneisio cryfderau'r teulu – a'u cymuned o bosib – er mwyn helpu'r teulu i symud ymlaen rhag niwed.

## Anghenion ac ymatebion teuluoedd ar ôl i gam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd ddod i'r amlwg

Pan fydd yn cael ei ganfod, mae cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd yn cael ei brofi'n aml fel argyfwng yn y teulu. Mae hyn yn effeithio ar y teulu cyfan fel arfer, gan gynnwys brodyr a chwiorydd nad ydynt yn cael eu niweidio'n uniongyrchol yn y gamdriniaeth. Mae angen deall bod ymatebion pob aelod o'r teulu yn cael effaith ar ei gilydd; ni ellir eu deall ar eu pen eu hunain.

Gall rhieni/gofalwyr deimlo eu bod mewn sefyllfa amhosibl, wedi eu rhwygo rhwng anghenion y plentyn sydd wedi'i niweidio a'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio. Maen nhw'n aml yn profi cywilydd a gwadu, ac yn teimlo eu bod yn cael eu llethu.

Mae'n hanfodol nad yw gwasanaethau'n gweld bai yn amhriodol ar yr hyn a all fod yn strategaethau ymdopi'r teulu, ond yn helpu aelodau'r teulu i brosesu a gwneud synnwyr o'r wybodaeth newydd am eu teulu. Mae angen cymorth a chefnogaeth emosiynol ar rieni/gofalwyr er mwyn gallu cynnig cefnogaeth briodol i holl blant y teulu. Yn ganolog i gynnig cefnogaeth effeithiol i deuluoedd yw dealltwriaeth o ddiwylliant yng nghyd-destun y system deuluol, a'r rôl y gall diwylliant teuluol ei chwarae o ran cefnogi ac adfer.

## Asesu

Y ffordd orau o gynnal asesiadau yw pan fydd diogelwch emosiynol, corfforol a rhywiol ar gael i holl blant y teulu. Mae penderfyniadau ymarferol i hyrwyddo diogelwch y plant yn hanfodol ar ôl i gam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd ddod i'r amlwg. Efallai y bydd hyn yn gofyn am rywfaint o gynllunio manwl ar gyfer diogelwch. Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen i'r plentyn sydd wedi niweidio gael ei leoli i ffwrdd o gartref y teulu, o leiaf hyd nes y bydd yr asesiad wedi'i gwblhau.

Dylai'r asesiad fod yn drylwyr ac ystyried anghenion y teulu cyfan. Gall defnyddio offeryn asesu risg strwythuredig fod yn ddefnyddiol, ond mae angen ei roi mewn cyd-destun o fewn ffurf ehangach sy'n ystyried deinameg y gamdriniaeth. Rhaid ystyried pam yr oedd plentyn penodol yn destun y cam-drin, deinameg y teulu, y cyd-destun diwylliannol, a natur y berthynas rhwng y plentyn sydd wedi niweidio a'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio.

Dylai asesiad roi sylwadau ar gyswllt rhwng brodyr a chwiorydd os yw'r plant yn cael eu gwahanu – pan fyddai hynny'n cael ei nodi neu'n cael ei gyfiawnhau, ac os nodir hynny, sut y gellir ei reoli'n ddiogel – a dylai wneud argymhellion am y nodau therapiwtig a allai leihau'r risg dros amser.

Mae angen adolygu'r penderfyniadau ynghylch yr amodau byw rhwng brodyr a chwiorydd a threfniadau cyswllt.

## Ymyrraeth

Mae ymyriadau gyda theuluoedd sydd wedi profi camdriniaeth rywiol rhwng brodyr a chwiorydd yn cael eu tanwerthuso, ac nid oes unrhyw ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth hyd yma.

Mae'r llenyddiaeth ymarfer yn amlinellu dulliau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd yn hytrach nag ar unigolion. Maent yn cynnwys helpu'r plentyn sydd wedi niweidio i reoli ei ymddygiad yn fwy effeithiol, helpu'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio i sylweddoli nad ei fai ef yw'r hyn sydd wedi digwydd, a chefnogi'r gwaith o fagu plant yn gadarnhaol yn ogystal â gweithrediad y teulu sy'n hyrwyddo diogelwch emosiynol, corfforol a rhywiol.

Pan fydd brodyr a chwiorydd wedi cael eu gwahanu, mae ailuno'n nod sy'n gallu bod yn ganolbwynt i waith therapiwtig a wneir gan aelodau o'r teulu a'r teulu cyfan, boed y nod hwnnw'n cael ei gyflawni yn y pen draw ai peidio. Mae angen i'r broses o ailuno gael ei gynllunio'n ofalus a'i dilyn ar gyflymder sy'n seiliedig ar anghenion y plentyn sydd wedi cael ei niweidio, a rhaid iddi fod yn seiliedig ar broses asesu drylwyr.

Mae ymyrraeth effeithiol yn galw am ddull gweithredu cydgysylltiedig, amlasiantaethol, sy'n cynnwys teuluoedd fel partneriaid yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn gofyn am gytundeb gofalus ynghylch cyfrinachedd a chyfathrebu da rhwng y gweithwyr proffesiynol dan sylw.

Mae angen goruchwyliaeth a chefnogaeth fyfyriol ar y rhai sy'n ymwneud fwyaf â chefnogi'r teulu.

> Mae angen i'r broses o ailuno teulu fod yn un sydd wedi'i chynllunio'n ofalus, wedi'i seilio ar anghenion y plentyn sydd wedi cael ei niweidio

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn www.csacentre.org.uk/knowledge-in-practice/practice-improvement/

## Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r bobl ganlynol, a fu'n ymwneud â Phanel Adolygu a Datblygu Cam-drin Plant yn Rhywiol y Ganolfan CPRh, am eu holl gyngor ac arweiniad defnyddiol ac adeiladol yn y gwaith o ysgrifennu'r papur hwn:

Spencer Bailey, Barnardo's Rhanbarth y Gogledd

Stephen Barry, Ymddiriedolaeth GIG Partneriaeth Iechyd Avon a Wiltshire

Joan Cherry, The AIM Project

Joe Dove, Cyngor Sir Dwyrain Sussex

Anna Glinski, Canolfan CPRh

Simon Johr, Cyngor Dinas Coventry

Vince Mercer, The AIM Project

Concetta Perôt, ymgynghorydd annibynnol

Rob Tucker, RGT Training & Consultancy

Jane Wiffin, Canolfan CPRh

## Gair am yr awduron

Mae Dr Peter Yates yn ddarlithydd ac yn arweinydd rhaglen ar gyfer gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Caeredin Napier. Mae'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig gyda mwy na 10 mlynedd o brofiad ym maes amddiffyn plant, gan gynnwys fel uwch ymarferydd mewn gwasanaeth arbenigol i blant sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Roedd ei PhD yn cynnwys gwneud penderfyniadau gan weithwyr cymdeithasol mewn achosion yn ymwneud â cham-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd, ac mae ei ddiddordebau ymchwil yn parhau yn y maes hwn ac ymddygiad rhywiol niweidiol yn fwy cyffredinol. Mae wedi cyhoeddi a chyflwyno mewn cynadleddau rhyngwladol ar y pynciau hyn.

Mae Stuart Allardyce yn Gyfarwyddwr yn Sefydliad Lucy Faithfull, ac mae'n gyfrifol am Stop It Now! Yr Alban a gwaith ymchwil ar draws elusen y DU. Mae wedi gweithio am dros 20 mlynedd fel ymarferydd a rheolwr gyda phlant sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae'n gymrawd ymchwil er anrhydedd ym Mhrifysgol Strathclyde ac yn is-gadeirydd y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Trin Camdriniaeth.

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CSA) yn dymuno gweld plant yn cael byw'n rhydd rhag bygythiad a niwed cam-drin rhywiol. Ein nod yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy gamau atal gwell ac ymateb gwell.

Rydym ni'n dîm amlddisgyblaethol, sy'n cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref a'i gynnal gan Barnardo's, ac rydym yn gweithio'n agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, rydym ni'n annibynnol a byddwn yn herio unrhyw rwystrau, rhagdybiaethau, tabŵau a ffyrdd o weithio sy'n ein hatal rhag cynyddu ein dealltwriaeth a gwella ein hagwedd at gam-drin plant yn rhywiol.

Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, mae'n rhaid i ni ddeall beth sy'n ei achosi, ei gwmpas, graddfa ac effaith. Gwyddom lawer am gam-drin plant yn rhywiol ac rydym wedi gwneud cynnydd i ymdrin â hyn, ond mae nifer o fylchau yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o hyd sy'n cyfyngu pa mor effeithiol yr eir i'r afael â'r mater.

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio actorion ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

22168shc21